Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Miri Mawr**

**Meithrinfa Miri Mawr**
**19 Gabalfa Road**
**Caerdydd**
**CF14 2JH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/09/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Miri Mawr

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Miri Mawr Nursery Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 36 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 06.07.2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau’n Deg? | Nac ydy |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn yn ystod pandemig COVID-19; felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac wedi setlo. Cânt gyfleoedd da i chwarae a dysgu mewn lleoliad magwrus. Cânt gyfleoedd i ddod yn annibynnol ac i feithrin eu sgiliau drwy amrywiaeth o brofiadau a chwarae da. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau agos â'i gilydd a'r staff.

Mae'r staff yn broffesiynol, yn gymwysedig ac yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau COVID-19 ar waith yn dda. Maent yn cynllunio amrywiaeth dda o weithgareddau, sy'n cynnwys diddordebau a chyfraniad y plant. Mae'r staff yn cadw cofnodion o gynnydd y plant yn dda.

Mae digon o adnoddau yn yr amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored. Darperir amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau i'r plant chwarae â nhw. Mae'r amgylchedd yn lân, yn groesawgar ac yn drefnus. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas, gan gwblhau asesiadau risg a gwiriadau dyddiol yn gyson.

Mae gweledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth ac mae'r tîm rheoli yn cefnogi'r staff i wneud eu swyddi yn dda. Mae polisïau, gweithdrefnau a chofnodion addas ar waith. Fodd bynnag, mae Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth wedi cael ei gyflwyno yn unol â'r rheoliadau ar gyfer y diffyg ymarferion tân sy'n cael eu cynnal.  Mae'r rhieni'n canmol y gwasanaeth yn fawr, ac yn gadarnhaol iawn am y staff a'r gofal y mae eu plant yn ei gael.

## Llesiant

Mae'r plant yn cael eu hannog i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â'r ffordd y maent yn treulio eu hamser yn y lleoliad. Gallant ddewis o blith amrywiaeth o weithgareddau cyffrous a difyr. Caiff hunanfynegiant y plant ei annog a gwelsom y plant yn dewis ychwanegu teganau i ddatblygu eu chwarae. Gwrandewir ar y plant ac maent yn cael sgyrsiau â'r staff am eu diddordebau a'u syniadau. Gwelsom aelod o'r staff yn ymateb yn gynnes i blentyn a oedd yn ceisio ymuno â'r amser canu.

Mae'r plant yn fodlon eu byd, yn ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi yn y lleoliad. Maent yn gwneud ffrindiau yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu, ac yn meithrin cydberthnasau cryf â'r staff sy'n gofalu amdanynt. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r drefn feunyddiol, yn ddigon hyderus i archwilio'r amgylchedd yn rhydd ac yn gwybod ble mae'r adnoddau a sut i gael gafael arnynt yn annibynnol. Gwelsom y plant yn yr ystafell fabanod yn defnyddio'r offerynnau cerdd yn annibynnol. Mae'r plant yn dysgu i barchu ei gilydd a rhannu yn briodol. Gwelsom y plant yn mwynhau chwarae yn yr awyr agored gyda'i gilydd.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn cael budd o amrywiaeth dda o adnoddau chwarae a dysgu sy'n addas i'w hoedran ym mhob ystafell. Maent yn ymddiddori yn eu chwarae, ac mae rhai ohonynt yn dangos chwilfrydedd a'r gallu i chwarae ar eu pen eu hunain am gyfnodau sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a arweinir gan oedolion, yn ogystal â chwarae'n annibynnol. Gwelsom y plant yn mwynhau amser canu gydag offerynnau cerdd iddynt eu chwarae.

Mae'r plant yn datblygu'n dda ac maent yn cael cyfleoedd i fod yn annibynnol. Gwelsom fod y plant iau yn cael eu hannog i fwydo eu hunain, gyda'r staff yn cynnig cymorth yn ôl yr angen. Hefyd, gwelsom y plant hŷn yn arllwys eu diodydd eu hunain yn ystod amser bwyd ac yn pilio eu ffrwythau eu hunain ar gyfer melysfwyd. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau yn ystod sesiynau chwarae yn yr awyr agored, megis reidio beiciau, paentio a thyfu eu llysiau eu hunain. Gwelsom y plant yn siarad yn llawn cyffro am y ffa dringo roeddent wedi bod yn eu tyfu ac roeddent yn edrych ymlaen at eu bwyta i ginio y diwrnod canlynol.

## Gofal a Datblygiad

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau yn y lleoliad. Maent yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach ar y cyfan. Gwelsom nad oedd ymarferion tân wedi cael eu cwblhau am gyfnod o amser yn ystod y pandemig. Mae hwn yn faes y mae angen ei wella. Mae gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo lles y plant, gan gynnwys polisi diogelu trylwyr. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau diogelu'r lleoliad ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran eu rôl wrth ddiogelu'r plant. Fodd bynnag, mae eu tystysgrifau hyfforddiant diogelu wedi dod i ben yn ystod y pandemig. Mae'r staff yn dilyn polisïau diogelu y lleoliad. Mae system dda ar waith ar gyfer rhoi meddyginiaeth, os bydd angen. Caiff ffurflenni damweiniau a digwyddiadau eu cwblhau'n dda. Fodd bynnag, nid oes lle i'r rhieni eu llofnodi a'u dyddio. Mae'r staff yn glir ynglŷn â'r gweithdrefnau diogelwch ar gyfer y lleoliad a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli heintiau. Mae polisïau a gweithdrefnau manwl ar waith sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae arferion COVID-19 da ar waith, ynghyd â pholisi COVID-19, a gwelsom fod y staff yn ei ddilyn. Gwelsom y staff yn gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) priodol ac yn golchi eu dwylo yn rheolaidd.

Mae'r staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gefnogi a hyrwyddo ymddygiad cymdeithasol y plant, gan fod yn ystyriol o'u hoedran a'u cam datblygu. Maent yn fodelau rôl cadarnhaol ar gyfer y plant, ac yn trin ei gilydd a'r plant gyda pharch a charedigrwydd. Mae'r staff yn dangos diddordeb yng ngwaith y plant, ac maent yn fodlon chwarae gyda'r plant i gefnogi eu dysgu a'u datblygiad. Mae polisi rheoli ymddygiad priodol ar waith ac mae'r staff yn gyfarwydd â hwn.

Mae'r staff yn gefnogol, yn fagwrus ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r plant er mwyn cefnogi eu chwarae a'u datblygiad. Mae system dda ar waith i gofnodi a nodi cynnydd y plant. Gwelsom enghraifft o asesiad llinell sylfaen y plant, gyda'r plant yn adnabod siapiau, lliwiau, rhifau a llythrennau. Mae'r staff yn cynllunio amrywiaeth dda o weithgareddau, sy'n dilyn cyfraniad a diddordebau'r plant. Gwelsom enghraifft o fap meddwl o waith cynllunio wedi'i arddangos ar y wal lle roedd y plant wedi cynllunio o amgylch stori Y Lindysyn Llwglyd Iawn, ynghyd â ffotograffau o'r plant yn cymryd rhan yn y gweithgareddau roeddent wedi'u cynllunio. Roedd y plant yn llawn cyffro wrth ddweud wrthym am y ffa dringo roeddent wedi'u plannu yn yr ardd ar ôl darllen Jac a'r Goeden Ffa. Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn rhagorol o fewn y lleoliad.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn ddeniadol, ac mae'n darparu digon o le ar gyfer gweithgareddau'r plant. Mae'r tystysgrifau diogelwch yn gyfredol, gan gynnwys gwasanaeth boeler nwy. Mae polisïau a gweithdrefnau manwl ar waith i gadw'r staff, y plant ac ymwelwyr yn ddiogel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cadw cofnodion o bob ymwelydd â'r lleoliad, er yn ystod y pandemig COVID-19 nid yw ymwelwyr nad ydynt yn hanfodol yn dod i mewn i'r adeilad. Mae asesiadau risg effeithiol ar waith sy'n nodi ac yn dileu risgiau i ddiogelwch y plant, y staff ac ymwelwyr.

Mae amgylchedd y feithrinfa yn lân, yn groesawgar ac mewn cyflwr da. Mae pob prif ystafell yn y feithrinfa yn cynnwys digon o adnoddau bywyd go iawn o ansawdd da, megis sosbenni yn y gornel gartref, llyfrau a doliau. Mae arddangosfeydd ar y waliau yn cynnwys gwaith celf y plant, ffotograffau ohonynt yn chwarae a labeli y plant a ysgrifennwyd â llaw, sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt. Mae'r ardal awyr agored yn cynnwys cyfarpar sy'n addas ar gyfer oedran y plant, ynghyd â gardd perlysiau ac ardal blannu.

Mae amrywiaeth dda o deganau a deunyddiau dysgu sy'n diwallu anghenion y plant ym mhob prif ystafell. Caiff adnoddau eu storio ar unedau sy'n addas i'r plant ym mhob ystafell i annog eu hannibyniaeth. Er enghraifft, caiff teganau eu storio yn isel yn yr ystafell fabanod er mwyn cael gafael arnynt yn hawdd, ac ar silffoedd uchel yn ystafelloedd y plant hŷn. Mae'r plant yn mwynhau eu hamser yn yr awyr agored ac yn dangos llawer o frwdfrydedd, gan symud o gwmpas yr ardal yn rhwydd. Mae'r dodrefn ym mhob ystafell o ansawdd da ac mae detholiad da o adnoddau Cymraeg ar gael ym mhob rhan o'r feithrinfa.

## Arwain a Rheoli

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn fedrus, yn brofiadol ac maent yn rheoli'r gwasanaeth yn dda. Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi'r wybodaeth berthnasol i'r rhieni am y gwasanaeth er mwyn sicrhau y gallant wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am ei addasrwydd i'w plentyn. Mae polisïau a gweithdrefnau manwl ar waith a gaiff eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl yr angen. Mae'r unigolyn cyfrifol yn rhoi cymorth i'r personau â chyfrifoldeb a'u timau er mwyn sicrhau y caiff anghenion y plant eu hystyried bob amser.

Mae ffeiliau'r staff wedi'u cwblhau ac mae'r holl wiriadau perthnasol yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant. Mae pob aelod o'r staff yn cael arfarniad blynyddol a'i oruchwylio wrth ei waith. Fodd bynnag, ni chaiff y rhain eu cofnodi'n ffurfiol yn ysgrifenedig. Mae'r adolygiad blynyddol o Ansawdd y Gofal yn fanwl ac yn cynnwys adborth y rhieni, y staff a'r plant. Mae'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) wedi cael ei gwblhau.

Mae system glir ar waith i sicrhau bod gwiriadau'r staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn gyfredol. Mae system i olrhain hyfforddiant gorfodol. Fodd bynnag, daeth rhywfaint o'r hyfforddiant hwn i ben yn ystod y pandemig. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi yn y feithrinfa. Gwnaethant ddweud bod y tîm rheoli yn gefnogol ac yn barod i helpu gydag unrhyw ymholiadau sydd ganddynt.

Mae'r lleoliad wedi ennyn ymddiriedaeth y rhieni ac wedi ffurfio cysylltiadau cyfathrebu da a phartneriaeth gref â nhw. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn gwerthfawrogi adborth ar gynnydd eu plentyn. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn fodlon ar y ffordd y mae eu plant wedi datblygu ers iddynt ddechrau yn y feithrinfa a pha mor hyfryd ydyw eu bod yn dathlu achlysuron fel gŵyl y cynhaeaf. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio ap digidol ar-lein i gadw mewn cysylltiad â'r rhieni ac mae ffotograffau, gwybodaeth a chylchlythyrau yn cael eu lanlwytho'n rheolaidd.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Sicrhau bod hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys diogelu, yn gyfredol i bob aelod o'r staff

A2. Sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd fel y nodir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A3. Sicrhau bod lle i'r rhieni lofnodi a dyddio ar ffurflenni damweiniau a digwyddiadau

A4. Sicrhau y darperir amser ar gyfer goruchwylio'r staff yn ffurfiol, a dylid cofnodi hyn a'i gynnwys yn y broses arfarnu flynyddol.

| **Meysydd i'w gwella a chamau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi ei gyflawni** |
|---|

| **Meysydd i'w gwella a chamau a gymerwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
|---|---|
| Rheoliad 38 (1) (e) – Rhagofalon tân – Heb gwblhau dril tân ers 2019. | Rheoliad 38 (1) (e) |

Mae angen gwella'r maes/meysydd a nodir uchod, ond nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ar yr achlysur hwn. Mae hyn am nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

**Dyddiad Cyhoeddi** 28/10/2021